THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEDLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

# Prif Weithredwr

## Manylion Pellach

### Chwefror 2018



# Prif Weithredwr:

## Manylion Pellach a Thelerau'r Penodiad

Cymdeithas Ddysgedig Cymru, sy'n uchel ei pharch fel llais awdurdodol, annibynnol a chredadwy ym mywyd cyhoeddus Cymru, yw Academi Genedlaethol Cymru. Mae hi'n Elusen Siarter Brenhinol gydag yn agos i 500 o Gymrodyr, sy'n tynnu rhai o'r bobl fwyaf llwyddiannus a thalentog sydd â chyswllt â Chymru at ei gilydd o bob maes dysg ac ysgolheictod. Ers ei sefydlu yn 2010, mae wedi ymrwymo i hyrwyddo pwysigrwydd ysgolheictod ac ymchwil a'u cyfraniad at fudd gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd Cymru.

Mae'r Gymdeithas am benodi Prif Weithredwr sydd â dealltwriaeth o Addysg Uwch a chymdeithas Cymru ynghyd â'r gallu i helpu i gynyddu effaith y Gymdeithas a chyflawni uchelgais y Gymdeithas o ran twf a chynaladwyedd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn olynu'r Athro Peter Halligan yn dilyn ei benodi'n Brif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru.

Gwahoddir ceisiadau gan unigolion cymwys am swydd lawn amser y Prif Weithredwr. Bydd yr unigolyn a benodir yn gyflogedig gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru a lleolir y swydd yn swyddfa'r Gymdeithas ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Y dyddiad dechrau fydd 1 Mehefin 2018 neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

| | |
|---|---|
| **Cyflog:** | Cyflog cychwynnol deniadol a chystadleuol fydd yn agored i'w drafod ond a fydd yn gymesur â lefel a chwmpas y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau y bydd disgwyl i'r unigolyn a benodir eu cyflawni. |
| **Pensiwn:** | Gall y deiliad swydd ymuno â chynllun pensiwn aberthu cyflog y Gymdeithas gyda'r cyflogwr a'r cyflogai'n cyfrannu 5% o'r cyflog gros (yr un) bob mis i'r cynllun. |
| **Telerau cyflogaeth:** | Swydd lawn amser yw hon am dair blynedd ond gyda phosibilrwydd ei hestyn. Bydd cyfnod prawf o 6 mis yn gymwys. |
| **Oriau:** | 5.0 diwrnod yr wythnos (35 awr) rhwng dydd Llun a dydd Gwener (Oriau Swyddfa arferol yw 8.45am – 4.45pm). |
| **Gwyliau blynyddol:** | 30 diwrnod (ynghyd ag 8 gŵyl gyhoeddus statudol a 7 diwrnod arferol). |
| **Teithio:** | Bydd gofyn teithio'n rheolaidd i gyfarfodydd a digwyddiadau (ad-delir costau) ond mae'r rôl ar y cyfan yn un swyddfa. |

## Dull ymgeisio

Dylid cyflwyno ceisiadau ar y ffurflen gais gyda llythyr a curriculum vitae i'w hategu.

Dylid cyfeirio pob cais at **Syr Emyr Jones Parry, Llywydd (president@lsw.wales.ac.uk)**, neu Syr Emyr Jones Parry, Llywydd, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NS (REF: CEO 18).

Rhaid i geisiadau ddod i law erbyn hanner dydd **ddydd Mercher 14 Mawrth 2018**. Cynhelir cyfweliadau'r swydd yng Nghaerdydd ar **11 Ebrill 2018.**

Mae’r Gymdeithas yn cadw’r hawl i ystyried unigolion nad ydynt wedi cyflwyno ceisiadau.

Gwahoddir unrhyw un a hoffai ragor o wybodaeth am y swydd i gysylltu â Syr Emyr Jones Parry (029 2037 5054 / president@lsw.wales.ac.uk ) am sgwrs anffurfiol.

Nodwch y dylai unrhyw Ymgeiswyr na chânt eu galw am gyfweliad o fewn tair wythnos i’r dyddiad cau ystyried i’w cais fod yn aflwyddiannus.

**Nodwch hefyd nad yw’r Gymdeithas yn darparu adborth i ymgeiswyr nas gwahoddwyd am gyfweliad.**

# Cymdeithas Ddysgedig Cymru (y Gymdeithas)

## Y Gymdeithas

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn chwarae rhan bwysig a chynyddol yng nghymdeithas Cymru, gan weithio i ddatblygu addysg, dysg, astudaethau academaidd a gwybodaeth er mwyn cyfrannu at ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r Gymdeithas yn nodedig yn y DU ac yn rhyngwladol oherwydd ehangder ein Cymrodoriaeth, sy'n rhychwantu pynciau academaidd traddodiadol, ond hefyd busnes, ymarfer celfyddydol a gwasanaeth cyhoeddus.

Cryfderau'r Academi yw ei Chymrodoriaeth, ei staff a'r partneriaethau a ffurfiwyd gyda phrifysgolion, proffesiynau, busnesau, diwydiant a'r llywodraeth.

Ers ei sefydlu yn 2010, mae'r Gymdeithas wedi gweithio i wneud y canlynol:

- dathlu, cydnabod, cadw, diogelu ac annog rhagoriaeth ym mhob disgyblaeth ysgolheigaidd, ac yn y proffesiynau, diwydiant a masnach, y celfyddydau a gwasanaeth cyhoeddus;
- hyrwyddo datblygiad dysg ac ysgolheictod a rhannu a chymhwyso canlyniadau ymholi ac ymchwil academaidd;
- gweithredu fel ffynhonnell o gyngor a sylwadau ysgolheigaidd annibynnol ac arbenigol ar faterion sy'n effeithio ar les Cymru a'i phobl a datblygu'r drafodaeth gyhoeddus a rhyngweithio ar faterion o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r Gymdeithas eisoes – o fewn cyfnod byr – wedi gwneud llawer i godi ei phroffil a sicrhau cydnabyddiaeth yn y sectorau addysg uwch a llywodraeth yng Nghymru ac yn fwy cyffredinol, ac mae wedi datblygu'n sefydliad sylweddol ac uchel ei barch ym mywyd academaidd a chyhoeddus Cymru, gyda'r gallu i ddangos ei gwerth gwirioneddol a photensial i Gymru.

Roedd y Cynllun Strategol pum mlynedd diwethaf, a fabwysiadwyd ym mis Mai 2013, yn blaenoriaethu gweithgareddau 'dyheadol ac uchelgeisiol' oedd hefyd yn 'realistig a chyflawnadwy'.

Mae'r Gymdeithas wedi cymryd y camau canlynol i wireddu'r uchelgais hwn:

- cynyddu'r Ysgrifenyddiaeth i 5 aelod o staff (4.3 CALl) i helpu i gyflawni cenhadaeth y Gymdeithas;
- cefnogi a threfnu dros 100 o ddigwyddiadau sydd wedi cyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol ar draws Cymru;
- sicrhau cyllid parhaus gan bob un o wyth prifysgol Cymru;
- cyflawni statws Elusen Siarter Brenhinol;
- cryfhau ei pherthynas gydag academïau rhyngwladol eraill yn y DU ac Ewrop;
- gweithio i wella cydbwysedd rhywedd y Gymrodoriaeth, gyda chynnydd o 50% yn y nifer o Gymrodyr benywaidd ers 2013/14;
- ymwneud ag amrywiol fentrau polisi a thrafodaethau polisi cyhoeddus (er enghraifft ym meysydd cyllido a pholisi addysg uwch, cyllid a pholisi ymchwil, polisi diwylliannol ac ymadawiad y DU o'r UE);
- darparu cyngor ysgolheigaidd a gwrthrychol, wedi'i ymchwilio'n dda, i bobl, gwleidyddion a gwneuthurwyr polisi Cymru, drwy ffurfio a chyhoeddi sylwadau ac ymatebion i ymgynghoriadau ar faterion allweddol bwysig;

- cyhoeddi amrywiol adroddiadau'n hyrwyddo gwaith y sector addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys adroddiad diweddar Coleg Kings *The Impacts of academic research from Welsh universities* a *Wales and the World* oedd yn amlygu ecosystem gyfoethog Cymru o weithgareddau cyfredol a datblygol ym meysydd addysg, ymchwil, arloesi a busnes.

Mewn cyfnod o ansicrwydd, mae'n bwysig fod gan y Gymdeithas ymdeimlad clir o gyfeiriad strategol ac mae wrthi'n datblygu fframwaith strategol newydd sy'n adeiladu ar gryfderau sy'n bodoli, ac sy'n ystyried y cyd-destun y mae'r Gymdeithas yn gweithredu ynddo.

Rydym ni'n edrych am Brif Weithredwr fydd yn cynghori ac yn cynorthwyo'r Cyngor wrth iddo wneud penderfyniadau i adeiladu ar lwyddiannau'r Gymdeithas ac a fydd yn dod ag ymdeimlad cryf o uchelgais i'r sefydliad i sicrhau ei fod yn amlycach, yn fwy effeithiol ac yn fwy perthnasol nag erioed.


Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, gweler www.learnedsociety.wales a'n Hadolygiad Blynyddol diweddar.

## Y Gymrodoriaeth

Sylfaen datblygiad llwyddiannus y Gymdeithas yw ei Chymrodyr. Y Cymrodyr yw'r prif adnodd sydd, drwy eu gweithgareddau gwirfoddol, yn datblygu nodau'r Gymdeithas er budd y cyhoedd a chymdeithas yn gyffredinol yng Nghymru a thu hwnt.


Gyda chylch enwebu Cymdeithas Ddysgedig Cymru bellach yn ei hwythfed flwyddyn mewn proses dreigl, rydym yn parhau i adeiladu Cymrodoriaeth gref, gynrychioliadol. Drwy broses drylwyr bum cam, mae ffocws y Gymdeithas ar ragoriaeth a chyflawniad yn sicrhau bod y Gymrodoriaeth yn cynrychioli'r gorau o blith y disgyblaethau academaidd mawr. Mae Cymrodyr yn nodedig nid yn unig am eu llwyddiannau unigol, ond hefyd fel ffigurau i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol yng nghymdeithas Cymru.

I gael rhagor o fanylion gweler https://www.cymdeithasddysgedig.cymru/ein-cymrodyr/y-gymrodyr/.




## Cyllid

Caiff cyllid sefydlog y Gymdeithas ei rheoli'n ddarbodus. Cyflawnwyd gwarged ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf ac roedd Mantolen 2016/17 yn dangos trosiant o £336,000. Mae polisi'r Gymdeithas ar gronfeydd wrth gefn yn dilyn yr arfer a fabwysiadwyd gan elusennau eraill yn hyn o beth, sef sicrhau ei bod yn cadw wrth gefn yr hyn sy'n cyfateb o leiaf i gost chwe mis o gyflogau staff.




Mae'r Gymdeithas yn derbyn grantiau gan bob un o Brifysgolion Cymru, ac yn 2016/17, cafwyd cyfanswm o dros £220,000. Caiff y grantiau hyn i gyd eu trin, at ddibenion cyfrifyddu ac adrodd, fel cyfraniadau at gostau craidd y Gymdeithas ac yn rhan o'i chronfeydd anghyfyngedig. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â'r farn, a rennir gan y Gymdeithas a'r prifysgolion dan sylw, y dylai'r Gymdeithas barhau – a chael ei gweld gan eraill – yn annibynnol.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn derbyn rhywfaint o incwm o'r tanysgrifiadau a godir ar Gymrodyr a ffioedd derbyn y Cymrodyr

sydd newydd eu hethol, o grantiau gan elusennau eraill, rhoddion gan Gymrodyr ac eraill, a gan Lywodraeth Cymru i gefnogi nodau penodol y Gymdeithas.

Gyda golwg ar sicrhau amgylchedd cyllido mwy sicr, rydym ni'n gweithio at amrywio ac ehangu ein sail cefnogaeth ymhellach drwy geisio cyllid am brosiectau penodol oddi wrth ymddiriedolaethau elusennol, cyrff masnachol a ffynonellau posibl eraill. **Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/17 i'w gweld yma.**

## Meithrin Cysylltiadau

Mae'r Gymdeithas yn ymfalchio ei bod yn sefydliad cwbl annibynnol ac mae parhad y statws hwn yn hanfodol i berthnasedd a llwyddiant y Gymdeithas yn y dyfodol. Fodd bynnag mae adeiladu perthynas gyda rhanddeiliaid allweddol yn parhau'n elfen bwysig o ddatblygiad y Gymdeithas ac mae wedi sefydlu cysylltiadau a rhyngweithio adeiladol gyda chynrychiolwyr nifer o gyrff eraill.

Mae'r rhain yn cynnwys: Cymdeithasau Dysgedig eraill yn y DU (gan gynnwys y Gymdeithas Frenhinol, yr Academi Brydeinig, Cymdeithas Frenhinol Caeredin, Academi'r Gwyddorau Meddygol a'r Gymdeithas Cemeg Genedlaethol); sefydliadau cenedlaethol eraill yng Nghymru gan gynnwys yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol, yr Eisteddfod Genedlaethol; elusennau eraill yng Nghymru a'r DU; Llywodraeth Cymru a'r DU (gwleidyddion ac uwch weision sifil); aelodau a swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; Cynghorau Ymchwil y DU; Swyddfa UEB Tywysog Cymru (a dderbyniodd wahoddiad y Gymdeithas i ddod yn Noddwr Brenhinol yn 2014); ac Is-Gangellorion a swyddogion eraill a staff Prifysgolion Cymru.

Yn ystod haf 2017, cynhaliodd y Gymdeithas ymarfer o ganfyddiad rhanddeiliaid i gael barn y rheini rydym ni'n gweithio gyda nhw. **Gellir gweld yr adroddiad cryno yma.**

# Llywodraethu

Dyfarnwyd Siarter Brenhinol i'r Gymdeithas ar 28 Medi 2015. O ganlyniad i ddyfarnu'r Siarter Brenhinol, ymgorofforwyd y Gymdeithas yn Elusen Siarter Brenhinol (1168622) ym mis Awst 2017. Yn 2015, penderfynodd Cyngor y Gymdeithas geisio teitl Brenhinol maes o law.

Offerynnau llywodraethu cyfredol y Gymdeithas yw ei **Siarter Brenhinol a'i his-ddeddfau**.

Mae'r Siarter yn darparu mai corff llywodraethu'r Gymdeithas yw ei Chyngor (ymddiriedolwyr yr elusen) y breinir ynddo lywodraethu a rheolaeth y Gymdeithas a'i busnes yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter, is-ddeddfau a Rheoliadau (Eitem 7.1). Mae hyn yn cynnwys pennu gweithgareddau addysgol y Gymdeithas, defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, hydaledd y Gymdeithas a diogelu ei hasedau, yn ogystal â sicrhau bod pob mater yn ymwneud â chyfrifon a gweithdrefnau ariannol yn cael eu cynnal yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Ceir tri phwyllgor sefydlog i gefnogi gwaith y **Cyngor** - y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol; y Pwyllgor Cyllid; a'r Pwyllgor Penodiadau, Llywodraethu ac Enwebiadau – yn ogystal â gweithgorau a phwyllgorau ad hoc eraill. Mae'r Gymrodoriaeth gyfan yn cyfarfod yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Y canlynol yw Swyddogion y Gymdeithas:

- Llywydd - Syr Emyr Jones Parry GCMG FInstP PLSW (tan fis Mai 2020)
- Ysgrifennydd Cyffredinol: Yr Athro Alan Shore FInstP FLSW (tan fis Mai 2020)
- Is-lywydd y Celfyddydau a'r Dyniaethau: Yr Athro David Boucher FRHistS FAcSS FLSW (tan fis Mai 2020)

- Is-lywydd STEMM: Yr Athro Ole Petersen CBE FMedSci MAE FLSW FRS (tan fis Mai 2018)
  *Darpar Is-lywydd STEMM Yr Athro Michael Charlton (Mai 2018-Mai 2021)*
- Trysorydd: Yr Athro John Wyn Owen CB FRSPH FLSW (tan fis Mai 2018)

Aelodau cyfredol y Cyngor yw'r canlynol (tan 23 Mai 2018):

- Yr Athro Michael Charlton FInstP FLSW
- Yr Athro Nancy Edwards FSA, FLSW
- Yr Athro David Evans FLSW
- Yr Athro Sioned Davies FLSW
- Yr Athro Helen Fulton FSA FLSW
- Yr Athro Christine James FLSW
- Yr Athro John Jones FLSW
- Yr Athro Densil Morgan DD FLSW
- Yr Athro John Morgan FRAI FRSA FLSW FRHistS
- Yr Athro Roger Owen FREng FLSW FRS
- Yr Athro Timothy Phillips FSc FLSW
- Yr Athro Keith Smith FRSC FLSW
- Yr Athro Terry Threadgold, FLSW
- Swyddogion etholedig y Gymdeithas

## Strwythur staffio'r Gymdeithas a swydd y Prif Weithredwr

Mae'r lefelau cyllid presennol yn golygu bod y Gymdeithas yn gweithredu ar lefel gynnil ond ystyrlon. Adlewyrchir hyn yn lefelau staffio arfaethedig Ysgrifenyddiaeth y Gymdeithas ar hyn o bryd sy'n cynnwys:

- un Prif Weithredwr llawn amser (y swydd a hysbysebir)
- un Clerc rhan amser i'r Cyngor (0.6)
- dau Swyddog Gweithredol llawn amser (Uwch Swyddog Gweithredol a Swyddog Cymrodoriaeth ac Ymgysylltu)
- un swyddog Cyllid / Gweinyddol rhan amser (0.7)

Yn amodol ar adnoddau, gellid recriwtio rhagor o staff dros y blynyddoedd nesaf i alluogi'r Gymdeithas i ddatblygu ac ehangu ei rhaglen.

Mae swydd y Prif Weithredwr ar agor i unigolion o amrywiaeth eang o gefndiroedd sy'n deall natur a nodweddion penodol y Gymdeithas ac sy'n uniaethu'n gryf gyda'i hamcan a'i chenhadaeth elusennol.

Bydd yr unigolyn a benodir yn atebol i'r Cyngor a bydd yn gweithio'n agos ac yn darparu cyngor i Lywydd a Swyddogion etholedig eraill y Gymdeithas. Un o'r rhain fydd y rheolwr llinell.

Bydd yr unigolyn a benodir yn dangos sgiliau arwain, symbyliad a brwdfrydedd, menter, cymhelliad a'r gallu i weithio dan bwysau, gyda hanes o gyflawni a bydd yn gallu troi ei law neu ei llaw at amrywiaeth eang o dasgau.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymgeisydd a fyddai'n croesawu her i helpu i ddatblygu sefydliad newydd a all chwarae rhan gynyddol allweddol ym mywyd Cymru.

# Prif Weithredwr: Disgrifiad o'r Rôl

Y Prif Weithredwr yw pennaeth gweithredol y Gymdeithas, yn darparu cyngor a gwybodaeth i'r Cyngor a rheoli llinell yr holl staff.

Bydd y Prif Weithredwr yn

- atebol i'r Cyngor ac yn arwain tîm o 5 cyflogai sy'n cyflawni cenhadaeth y Gymdeithas i ddathlu ysgolheictod a gwasanaethu'r genedl, a rhoi penderfyniadau'r Cyngor ar waith;
- cynorthwyo'r Cyngor i osod cyfeiriad y Gymdeithas at y dyfodol;
- cynorthwyo i gynyddu effaith a pherthnasedd y Gymdeithas drwy ddatblygu rhaglen arloesol o ymchwil, cyhoeddiadau a digwyddiadau sy'n meithrin trafodaeth gyhoeddus ac yn cyfrannu at wella a chreu polisi;
- gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau ymgysylltu effeithiol gyda phobl a sefydliadau – cyfathrebu, cydweithio a phartneru ac adeiladu capasiti;
- gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau cyflawni canlyniadau – gan gynnwys cynaladwyedd y sefydliad a chyflawni gwerth drwy ddefnydd effeithiol o adnoddau'r Gymdeithas;
- atebol am berfformiad ariannol a gweithrediadol y sefydliad, a bydd disgwyl datblygu sefyllfa ariannol y Gymdeithas drwy godi arian yn rhagweithiol a datblygu ffrydiau incwm amrywiol;
- gallu cyfathrebu'n fedrus gyda lefel uchel o ymwybyddiaeth wleidyddol a meddylfryd masnachol;
- cynnal rhwydwaith o randdeiliaid allweddol ar draws academia, diwydiant, cymunedau gwleidyddol a meysydd eraill o fywyd Cymru;
- llysgennad hynod gredadwy a hyrwyddwr y Gymdeithas, gydag addysg i lefel gradd o leiaf, a dealltwriaeth ragorol o faterion addysgol, economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol ac yn brofiadol yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel uchel, delio â'r cyfryngau a siarad cyhoeddus;
- rheolwr effeithiol ar staff y Gymdeithas.

Y Prif Weithredwr fydd Swyddog Cyfrifyddu'r Gymdeithas, yn atebol am adnoddau'r Gymdeithas, a bydd yn gyfrifol am sicrhau y cyflawnir swyddogaethau gweithredol y Gymdeithas, gan gynnwys:

- rheolaeth llinell dydd i ddydd i staff y Gymdeithas a'i swyddfeydd, gan gynnwys trosolwg a threfnu gwaith staff y Gymdeithas ac unrhyw ymgynghorwyr allanol a gwasanaethau cymorth y gellid ei defnyddio o bryd i'w gilydd;
- gweithio gyda'r Cyngor i ddrafftio cynlluniau busnes a strategol y Gymdeithas a sicrhau eu gweithrediad;
- rheoli ariannol, gan gynnwys paratoi amcangyfrifon a rhagamcanion incwm a gwariant a Chyfrifon Blynyddol y Gymdeithas;
- chwarae rôl allweddol yn cymell ac ymgysylltu â darpar roddwyr;

- darparu wyneb cyhoeddus i'r Gymdeithas ac adeiladu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid perthnasol a'r cyfryngau;
- meithrin cyfathrebu da ac ymgysylltu rhwng
  - staff y Gymdeithas a'i Chyngor, y Llywydd a Swyddogion eraill;
  - staff y Gymdeithas, ei Chyngor, y Llywydd a Swyddogion eraill a'r Gymrodoriaeth gyfan;

Bydd gofyn i'r Prif Weithredwr gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol ar gais y Cyngor.

# Prif Weithredwr: Manyleb yr Unigolyn

| | Meini prawf | Hanfodol | Ystyriaeth bwysig |
|---|---|---|---|
| Cymwysterau | Gradd anrydedd dda neu gyfatebol | ✓ | |
| Gwybodaeth a Phrofiad | Profiad o arwain ac adeiladu tîm, gorau oll yn y sector elusennol neu gyhoeddus, neu mewn addysg uwch | ✓ | |
| | Hanes llwyddiannus o gyflawni dyheadau strategol | ✓ | |
| | Profiad o reoli ariannol gan gynnwys gosod, rheoli a monitro cyllidebau | ✓ | |
| | Sgiliau gweinyddu a chynllunio cryf i sicrhau gosod a chyflawni targedau gweithrediadol yn effeithiol | ✓ | |
| | Profiad o arwain neu gefnogi mentrau datblygu a chodi arian | ✓ | |
| | Tystiolaeth o brofiad rheoli pobl gyda'r gallu i arwain timau cryf, gweithio'n gydweithredol a dirprwyo cyfrifoldebau fel bo'n briodol | ✓ | |
| | Dealltwriaeth gref o dirweddau addysg uwch, Llywodraeth, sector cyhoeddus a phreifat y DU, ynghyd â gwybodaeth dda o'r cyd-destun Cymreig ehangach | ✓ | |
| Sgiliau, Ymwybyddiaeth Galluoedd ac Agwedd | Cymhelliad a brwdfrydedd, menter a'r gallu i weithio dan bwysau, yn gyflym ac yn ôl terfynau amser heriol | ✓ | |
| | Sgiliau dadansoddi a threfnu rhagorol a'r gallu i gyfathrebu'n glir a chryno yn ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb | ✓ | |
| | Sgiliau rhyngbersonol ac adeiladu tîm rhagorol a'r gallu i greu perthynas a phartneriaethau gydag amrywiaeth eang o bobl ar bob lefel | ✓ | |
| | Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu Saesneg rhagorol (llafar ac ysgrifenedig) | ✓ | |
| | Y gallu i gyfathrebu'n llafar a/neu yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg | | ✓ |
| | Y gallu i ddatblygu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. | ✓ | |
| | Parodrwydd i deithio ar draws Cymru ac ambell waith y tu hwnt (gyda pheth galw i aros i ffwrdd o gartref dros nos) | ✓ | |

# Prif Weithredwr: Amodau'r Penodiad

Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1. Mae'r penodiad yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Is-ddeddfau Cymdeithas Ddysgedig Cymru.
2. Cynigir y swydd ar gyflog cychwynnol cystadleuol a fydd yn agored i'w drafod ac adolygiad cyfnodol.
3. Mae'r contract yn benodiad tymor penodol o dair blynedd i'w adnewyddu drwy gytundeb. Bydd yr unigolyn a benodir yn gyflogedig gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru a bydd y swydd wedi'i lleoli yn swyddfa'r Gymdeithas ym Mharc Cathays, Caerdydd.
4. Oriau gwaith arferol y Gymdeithas yw 8.45 a.m. tan 4.45 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener, gydag egwyl ganol dydd am awr. Cyfanswm yr oriau gwaith a gontractir yw 35 awr yr wythnos. Er hynny, bydd gofyn i'r sawl a benodir weithio'r oriau sy'n angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd ac o bryd i'w gilydd bydd angen gweithio yn ystod nosweithiau a phenwythnosau.
5. Y gwyliau blynyddol fydd 30 o ddiwrnodau, ynghyd ag 8 diwrnod o wyliau statudol a 7 diwrnod o wyliau arferol. Y flwyddyn wyliau yw 1 Ionawr tan 31 Rhagfyr yn gynwysedig. Cyfrifir gwyliau blynyddol ar sail pro rata. Rhaid cymryd gwyliau blynyddol ar adegau y cytunir arnynt gyda'r rheolwr llinell.
6. Ar yr amod bod y sawl a benodir yn cyfrannu o leiaf 5 y cant o'r cyflog gros i gynllun pensiwn rhanddeiliaid yn ei enw yn rheolaidd, bydd y cyflogwr yn cyfrannu 5 y cant o gyflog gros y sawl a benodir i'r cynllun hwnnw.
7. Ni chaiff y sawl a benodir ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth neu benodiad arall sy'n galw am gryn dipyn o'i amser neu egni heb ganiatâd pendant y cyflogwr.
8. Pe na bai'n gallu gweithio oherwydd salwch, byddai gan yr ymgeisydd llwyddiannus hawl i daliad yn unol â graddfa sy'n darparu ar gyfer chwe mis o gyflog llawn a chwe mis o hanner cyflog.
9. Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i dderbyn geirda boddhaol a phrawf o'r cymwysterau addysgol, proffesiynol, galwedigaethol ac ati a nodwyd gan yr ymgeisydd ar y ffurflen gais.
10. Caiff y penodiad ei gadarnhau yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o 6 mis yn llwyddiannus.
11. Gellir terfynu'r penodiad drwy rybudd ysgrifenedig o ddim llai na 3 fis gan y naill ochr neu'r llall.
12. Nid yw'n amod cyflogaeth gan y Brifysgol y dylai staff fod yn aelodau o undeb llafur ond bydd y sawl a benodir yn rhydd i ymuno ag undeb o'i ddewis/dewis.
13. Caiff amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gyson â'r disgrifiad swydd eu cytuno gyda'r rheolwr llinell ar adeg y penodiad. Ceir asesiad ar ddiwedd y cyfnod prawf ac yn flynyddol.